**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a
Deddfwriaeth Ychwanegol

8 Hydref 2018

Annwyl David

**Cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Gorffennaf 2018 yn holi ynghylch 'Cyfraith yr UE yng Nghymru: Beth sy'n digwydd yn ystod cyfnod pontio Brexit?'.

Fel y gwyddoch, yn dilyn yr ymchwiliad i **Lywodraethiant yn y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd** , mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi bod yn arwain y gwaith o ddatblygu'r trefniadau y bydd angen eu rhoi ar waith i alluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i oruchwylio gwaith rhyng-lywodraethol, gan gynnwys y trefniadau a fydd yn deillio o benderfyniad i DU i adael yr Undeb Ewropeaidd.

Bydd y Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol yn ceisio sicrhau bod egwyddorion atebolrwydd Llywodraeth Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a thryloywder y berthynas honno, wedi'u cynnwys mewn unrhyw drefniadau rhynglywodraethol diwygiedig.

Bydd y Cytundeb yn berthnasol i gyfranogiad Gweinidogion Cymru mewn strwythurau rhyng-lywodraethol ffurfiol. Y bwriad yw hybu gallu'r Cynulliad Cenedlaethol i graffu ar waith Llywodraeth Cymru a dwyn Gweinidogion Cymru i gyfrif mewn meysydd rhyng-lywodraethol.

Drwy'r Cytundeb, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, a phwyllgorau perthnasol eraill y Cynulliad Cenedlaethol, a hynny o leiaf fis cyn cynnal y cyfarfodydd

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

perthnasol, cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol. Os na fydd modd rhoi hysbysiad fis ymlaen llaw bydd y pwyllgorau'n cael gwybod am y cyfarfodydd cyn gynted â phosibl wedi iddynt gael eu trefnu. Bydd hyn yn galluogi'r Pwyllgor(au) i fynegi barn ar y pwnc ac, os bydd hynny'n briodol, gallant wahodd y Gweinidog perthnasol i ddod i gwrdd â'r pwyllgor cyn y cyfarfod rhynglywodraethol.

Yn ein cyfarfod ar 24 Medi, cytunodd y Pwyllgor y dylid rhannu fersiwn ddrafft o'r Cytundeb â chi er gwybodaeth (amgaeedig). Rydym yn rhagweld y bydd cytundeb ffurfiol yn fuan. Yna, rwy'n bwriadu tynnu sylw holl Aelodau'r Cynulliad at y Cytundeb yn ystod trafodaeth yn y Cyfarfod Llawn.

Yn gywir



**Mick Antoniw AC**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

**Amgaeëdig - Cyfyngiadau'r Cynulliad**